

PWYLLGOR ARDAL DWYFOR

18/3/19 (5.15PM – 7.15PM)

Presennol:- Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Aled Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Angela Ann Russell, Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Swyddogion:- Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Sioned Williams (Swyddog Codi Arian Ardal Dwyfor, Hosbis Dewi Sant) a Trystan Pritchard (Prif Weithredwr, Hosbis Dewi Sant) ar gyfer eitem 1 isod; a Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) ar gyfer eitemau 2 a 3 isod.

Ymddiheuriadau:- Y Cynghorwyr Dylan Bullard, Stephen Churchman, Anwen Davies, Simon Glyn, Sian Wyn Hughes, Hefin Underwood ac Eirwyn Williams.

1	Cyflwyniad Hosbis Dewi Sant Derbyniwyd cyflwyniad yn manylu ar waith Hosbis Dewi Sant a Swyddog Codi Arian Ardal Dwyfor ynghyd â'r bwriad i sefydlu is-uned hosbis yn Ysbyty Bryn Beryl. Nodwyd cefnogaeth i'r bwriad i sefydlu is-uned hosbis yn Ysbyty Bryn Beryl. Diolchwyd am y cyflwyniad.	
	Pwyntiau Gweithredu: <ul style="list-style-type: none">• Cysylltu â Swyddog Codi Arian Ardal Dwyfor pe dymunir ei gwahodd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau yn y gymuned.• Lledaenu'r neges o ran y bwriad i sefydlu is-uned hosbis ac ennyn cefnogaeth.• Anfon deunydd am waith Hosbis Dewi Sant at yr aelodau.• Trosglwyddo gwerthfawrogiad yr aelodau o waith staff Siop Hosbis Dewi Sant ym Mhwllheli.	Aelodau Aelodau TP/SW/BA SW
2	Cynllun Rheoli Traethau Drafft Derbyniwyd cyflwyniad ar y Cynllun Rheoli Traethau Drafft. Diolchwyd am y cyflwyniad.	
	Pwynt Gweithredu:	

	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau. 	BA
--	--	----

3	<p>Diweddariad ar Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli</p> <p>Derbyniwyd diweddariad ar yr adolygiad. Nodwyd bod Strategic Leisure wedi eu penodi i edrych ar y 5 opsiwn posib o ran rheolaeth yr Hafan a'r Harbwr.</p>	
	<p>Pwynt Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn diweddariad yn dilyn derbyn adroddiad Strategic Leisure yn y cyfarfod nesaf. 	LIBJ

4	<p>Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran eitemau posib ar gyfer y cyfarfod nesaf, nodwyd yr eitemau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cyflwyniad ar ddatblygiadau yn Ysbyty Bryn Beryl ➤ Diweddariad ar Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli ➤ Pont Bodfel ➤ Trethi Tai Haf 	
----------	---	--